


Mesur a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu i'r iaith Gymraeg, a hithau'n briod iaith Cymru, fod yn iaith swyddogol yng Nghymru; i roi hawliau i bobl Cymru gael gwasanaethau yn Gymraeg, gweithio yn Gymraeg a dysgu'r Gymraeg; i sefydlu Comisiynydd Iaith Cymru; i sefydlu Cyngor yr Iaith Gymraeg; ac i ddibenion cysylltiedig.



MESUR YR IAITH GYMIRAEG 2007





MESUR YR IAITH GYMRAEG 2007

Cyhoeddwyd Mawrth 2007
Argraffwyd gan Y Lolfa

CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

LLAWR GWAELOD · PEN ROC · RHODFA'R MÔR
ABERYSTWYTH · CEREDIGION · SY23 2AZ

01970 624501 · 01970 627122

POST@CYMDEITHAS.ORG

WWW.CYMDEITHAS.ORG

MESUR YR IAITH GYMRAEG 2007

Mesur a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu i'r iaith Gymraeg, a hithau'n briod iaith Cymru, fod yn iaith swyddogol yng Nghymru; i roi hawliau i bobl Cymru gael gwasanaethau yn Gymraeg, gweithio yn Gymraeg a dysgu'r Gymraeg; i sefydlu Comisiynydd Iaith Cymru; i sefydlu Cyngor yr Iaith Gymraeg; ac i ddibenion cysylltiedig.

1. Y Gymraeg yn Briod iaith Cymru

- (1) Y Gymraeg yw priod iaith Cymru.

2. Y Gymraeg yn Iaith Swyddogol

- (1) Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.
 (2) Er mwyn osgoi amheuaeth, datgenir drwy hyn fod gan unrhyw beth a wneir yn Gymraeg yr un dilystrwydd a phe bai ef wedi'i wneud yn Saesneg.

3. Yr Hawl i Gael Gwasanaethau yn Gymraeg

- (1) Mae gan bob person yng Nghymru yr hawl i gael gwasanaethau drwy'r Gymraeg boed y gwasanaethau hynny am dâl ai peidio.
 (2) Yn unol ag adran (1) uchod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gymryd pob cam priodol i ddarparu'u gwasanaethau yn Gymraeg.
 (3) At ddiben y Rhan hon ystyr "cam priodol" yw cam sy'n cymryd ystyriaeth o'r canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt —
 (a) nifer y personau a gyflogir gan y darparwr gwasanaethau;
 (b) lleoliad y darparwr gwasanaethau;
 (c) natur ieithyddol yr ardal y mae'r darparwr gwasanaethau yn ei gwasanaethu fel y'i disgrifir yn yr atlas a gomisiynir gan Gyngor yr Iaith Gymraeg a grybwyllir yn is-adran 7(2)(d);
 (ch) natur defnyddwyr y gwasanaethau; a
 (d) natur y gwasanaethau a ddarperir.
 (4) Caiff Gweinidogion Cymru bennu drwy orchymyn pa faterion ychwanegol sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw cam yn briodol yn nghyd-destun adrannau (2) a (3) uchod.

- (5) At ddiben y Rhan hon —
 (a) mae "gwasanaethau" yn cynnwys "nwyddau", "gwybodaeth" a "cyfleusterau"; a
 (b) ystyr "darparwr gwasanaethau" yw person sy'n darparu gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd neu at ran o'r cyhoedd yng Nghymru ac mae'n cynnwys y canlynol —
 (i) cyrff y Goron;
 (ii) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
 (iii) Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei hasiantaethau a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi;
 (iv) pob corff cyhoeddus a bennwyd yn gorff cyhoeddus o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993;
 (v) pob cyfleustod cyhoeddus a reoleiddir nas cynhwysir yn (iv) uchod;
 (vi) pob gwasanaeth ariannol, yswiriant a phensiwn;
 (vii) pob siop a lle manwerthu arall;
 (viii) pob cyfleuster adloniant a hamdden;
 (ix) pob man sy'n gwerthu bwyd neu ddiod i'r cyhoedd; a
 (x) pob gwesty, motel, gwely a brecwast a llety tebyg arall.
 (6) (a) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn osod unrhyw ofynion ar ddarparwyr gwasanaeth sydd yn eu barn hwy yn angenrheidiol er mwyn rhoi effaith i'r Mesur hwn.
 (b) Cyn gwneud gorchymynion o'r fath, rhaid i Weiniogion Cymru ymgynghori â Chyngor yr Iaith Gymraeg ac unrhyw berson arall y mae'n briodol yn eu barn hwy ymgynghori ag ef.
 (c) Yn unol ag is-adran (3)(a) o Ran 7 o'r Mesur hwn rhaid i Gyngor yr Iaith Gymraeg bennu beth yw'r safonau gofynnol sylfaenol ar gyfer gwasanaeth ym mhob un o'r meysydd uchod drwy lunio codau ymarfer i'w cymeradwyo gan Weiniogion Cymru.
 (7) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ychwanegu mathau o ddarparwyr gwasanaethau at y rhestr yn adran (5) uchod.
 (8) (a) Mae'n rhaid i bob darparwr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau mewn ardaloedd o Gymru lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng cyfathrebu wneud trefniadau priodol i ddarparu'r gwasanaethau hynny gan roi blaenoriaeth i'r Gymraeg.
 (b) Rhaid ymgynghori â'r atlas a gomisiynir gan Gyngor yr Iaith Gymraeg a grybwyllir yn is-adran (2)(d) o Ran 7 wrth benderfynu a yw'r Gymraeg yn brif gyfrwng cyfathrebu mewn ardal.
 (9) (a) Pan fo'r gyfraith yn mynnu bod gwybodaeth neilltuol yn cael ei rhoi i ddefnyddwyr yng Nghymru, mae gan bob defnyddiwr yng Nghymru yr hawl i gael yr wybodaeth honno yn Gymraeg.
 (b) Yn unol ag is-baragraff (a) uchod mae'n rhaid i bob person sy'n cynhyrchu nwydd i'w werthu i

ddefnyddwyr yng Nghymru gynnwys yr wybodaeth honno sy'n ofynnol ar y nwydd, ar label o amgylch y nwydd, neu ar ddogfen sy'n cyd-fynd â'r nwydd yn Gymraeg.

- (10) At ddiben y Rhan hon ystyr "trefniadau priodol" yw trefniadau sy'n rhoi ystyriaeth i'r canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt —
- (a) nifer y personau a gyflogir gan y darparwr gwasanaethau;
 - (b) lleoliad y darparwr gwasanaethau;
 - (c) natur ieithyddol yr ardal y mae'r darparwr gwasanaethau yn ei gwasanaethu fel y'i disgrifir yn yr atlas a gomisiynir gan Gyngor yr Iaith Gymraeg a grybwyllir yn is-adran (2)(d) o Ran 7;
 - (ch) natur defnyddwyr y gwasanaethau; a
 - (d) natur y gwasanaethau a ddarperir.
- (11) Caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu drwy orchymyn faterion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw trefniant yn briodol ai peidio o dan y Rhan hon.

Gorfodi, proses, a rhwymedi

- (12) Caiff person sydd o'r farn bod person arall wedi nacau iddo hawl o dan y Rhan hon godi achos sifil ynglŷn â'r mater yn yr un ffordd ag unrhyw hawliad arall yng nghyfraith camwedd er mwyn cael iawn.
- (13) Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth datgenir drwy hyn y caiff iawn am nacau hawl o dan y Rhan hon gynnwys iawndal am niwed i deimladau p'un a yw yn cynnwys iawndal o dan unrhyw bennawd arall ai peidio.
- (14) Codir achos yng Nghymru a Lloegr mewn llys sirol yn unig.
- (15) Y rhwymediâu sydd ar gael yn yr achosion hyn yw'r rhwymediâu sydd ar gael yn yr Uchel Lys.

4. Yr Hawl i Weithio yn Gymraeg

- (1) Rhaid i bob cyflogwr yng Nghymru wneud trefniadau priodol i alluogi aelodau o'i staff i weithio drwy'r Gymraeg.
- (2) Ni chaiff cyflogwr wahardd y defnydd o'r Gymraeg rhwng cyflogeion a'i gilydd a rhwng cyflogeion a'r sawl sy'n derbyn gwasanaethau a ddarperir ganddynt os bydd y naill barti a'r llall yn cydsynio i ddefnyddio'r Gymraeg.
- (3) Mae gan bob person a gyflogir yng Nghymru yr hawl i gael gwasanaethau personél sylfaenol yn Gymraeg.
- (4) At ddiben y Rhan hon mae "gwasanaethau personél sylfaenol" yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt —
- (a) contract neu ddatganiad cyflogaeth yn Gymraeg;
 - (b) telerau ac amodau cyflogaeth yn Gymraeg;

(c) gwybodaeth am bolisiâu craidd y cyflogwr yn Gymraeg gan gynnwys polisi iaith, polisi cydraddoldeb, a pholisi iechyd a diogelwch; ac

(ch) arwyddion a hysbysiadau Cymraeg yn y gweithle.

- (5) (a) Rhaid i bob darparwr gwasanaethau sydd wedi'i leoli mewn ardal o Gymru lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng cyfathrebu wneud trefniadau priodol i weinyddu'r gwasanaethau hynny yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf neu'n unig.
- (b) Rhaid ymgynghori â'r atlas a gomisiynir gan Gyngor yr Iaith Gymraeg a grybwyllir yn is-adran (2)(d) o Ran 7 wrth benderfynu a yw'r Gymraeg yn brif gyfrwng cyfathrebu mewn ardal ai peidio.
- (6) Mae gan bob person yng Nghymru sy'n aelod o undeb llafur yr hawl i gyfranogi o weithgareddau'r undeb hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n rhaid i'r undeb hwnnw wneud trefniadau priodol i alluogi hyn gan roi sylw neilltuo i'r canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt —
- (a) gwybodaeth am delerau aelodaeth;
 - (b) gwybodaeth am wasanaethau i aelodau;
 - (c) gwybodaeth am bleidleisiau gan gynnwys y papurau pleidleisio; ac
 - (ch) mynediad at swyddogion o'r undeb sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg.
- (7) Mae gan bob person yng Nghymru y mae'n rhaid iddo feddu ar dystysgrif neu ddiploma broffesiynol cyn arfer ei broffesiwn yn gyfreithlon yr hawl i geisio am y dystysgrif neu'r ddiploma honno yn llwyr neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl ei ddymuniaid ef, a rhaid i'r cyrff sy'n dyfarnu'r tystysgrifau neu'r diplomâu hynny wneud trefniadau priodol i alluogi hyn.
- (8) Mae gan bob person yng Nghymru y mae'n rhaid iddo fod yn aelod o gorff proffesiynol i arfer ei broffesiwn yn gyfreithlon yr hawl —
- (a) i ymgymhwyso ar gyfer y proffesiwn hwnnw yn llwyr neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl ei ddymuniaid ef; a
 - (b) i gyfranogi o weithgareddau'r corff proffesiynol hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg;
- ac felly mae'n rhaid i'r corff proffesiynol hwnnw wneud trefniadau priodol i alluogi hyn.
- (9) Rhaid i'r cyrff proffesiynol y cyfeirir atynt yn adran (8) uchod wneud trefniadau priodol i sicrhau bod digon o'u haelodau ar gael, gan dalu sylw i'r atlas sosioieithyddol a gomisiynir gan Gyngor yr Iaith Gymraeg, i arfer eu proffesiwn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- (10) At ddiben y Rhan hon ystyr "trefniadau priodol" yw trefniadau sy'n rhoi ystyriaeth i'r canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt —
- (a) nifer y personau a gyflogir gan y darparwr gwasanaethau, y nifer sy'n ceisio am dystysgrif neu

- ddiploma orfodol, neu y nifer sy'n aelodau o'r corff proffesiynol, yn ôl y digwydd;
- (b) lleoliad y darparwr gwasanaethau, y corff proffesiynol, neu ddyfarnydd y dystysgrif neu'r ddiploma broffesiynol yn ôl y digwydd;
- (c) natur ieithyddol yr ardal y mae'r darparwr gwasanaethau neu'r proffesiwn yn ei gwasanaethu fel y'i disgrifir yn yr atlas a gomisiynir gan Gyngor yr Iaith Gymraeg a grybwyllir yn is-adran (2)(d) o Ran 7 yn ôl y digwydd;
- (ch) natur defnyddwyr y gwasanaethau neu'r proffesiwn yn ôl y digwydd; a
- (d) natur y gwasanaethau a ddarperir.
- (11) Caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu drwy orchymyn faterion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw trefniant yn briodol ai peidio o dan y Rhan hon.

Gorfodi, proses a rhwymedi

- (12) Caiff person sydd o'r farn bod person arall wedi nacáu iddo hawl o dan y Rhan hon gyflwyno'i gŵyn i driwlynlys diwydiannol.
- (13) Pan fo triwlynlys diwydiannol yn penderfynu bod sail i gŵyn a gyflwynir iddo o dan y Rhan hon, rhaid iddo gymryd unrhyw un neu ragor o'r camau isod yn ôl yr hyn sy'n gyfiawn ac yn deg o dan yr amgylchiadau —
- (a) gwneud datganiad am hawliau'r achwynydd a'r atebydd o ran y materion y mae'r achwynydd yn cwyno amdanynt;
- (b) gorchymyn i'r atebydd dalu iawndal i'r achwynydd;
- (c) argymhell bod yr atebydd yn cymryd, cyn pen cyfnod penodol, gamau sydd ym marn y triwlynlys yn briodol o dan yr amgylchiadau er mwyn osgoi neu leihau'r effaith andwyol ar yr atebydd a achosir gan unrhyw fater y mae'r achwynydd yn cwyno amdano.
- (14) Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth datgenir drwy hyn y caiff iawn am nacau hawl o dan y Rhan hon gynnwys iawndal am niwed i deimladau p'un a yw yn cynnwys iawndal o dan unrhyw bennawd arall ai peidio.

5. Yr Hawl i Addysg Gymraeg

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau priodol i sicrhau bod modd i bob plentyn yng Nghymru rhwng 3 oed ac oedran dechrau ysgol gynradd dderbyn addysg addas yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn Gymraeg, yn ôl dymuniad ei rieni, o fewn pellter rhesymol i'w gartref.
- (2) At ddibenion y Rhan hon rhaid ystyried y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, wrth ddehongli "o fewn pellter rhesymol i'w gartref":
- (a) oed y plentyn;
- (b) iechyd y plentyn;
- (c) diogelwch y plentyn wrth deithio;
- (ch) cost ariannol cludo'r plentyn i'r ysgol; a

- (d) effaith cludo'r plentyn i'r ysgol
- (i) arno ef ei hun;
- (ii) ar ei deulu neu'i ofalwyr
- (iii) ar ei gymdogaeth; ac
- (iv) ar gynllun pumlynyddol yr awdurdod addysg lleol a grybwyllir yn is-adran (10)(b) isod.
- (3) (a) Mae gan bob plentyn yng Nghymru mewn oed addysg orfodol yr hawl i ddysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu fel ail iaith, fel y bo'n briodol, yn yr ysgol yng Nghymru y mae'n ei mynychu p'un a yw'r ysgol honno yn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod addysg leol berthnasol, ysgol annibynnol neu ysgol arbennig annibynnol.
- (b) Yn unol ag is-adran (a) uchod rhaid i bob ysgol yng Nghymru wneud trefniadau priodol i sicrhau bod modd i bob plentyn sy'n mynychu'r ysgol ddysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu fel ail iaith fel y bo'n briodol.
- (4) Mae gan bob plentyn yng Nghymru mewn oed addysg orfodol yr hawl i gael ei addysg yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn ôl ei dymuniad ef drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn yn yr ysgol yng Nghymru y mae'n ei mynychu p'un a yw'r addysg honno wedi'i darparu gan ysgol a gynhelir gan yr awdurdod addysg leol berthnasol, ysgol annibynnol neu ysgol arbennig annibynnol ac yn achos ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol perthnasol, mae gan y plentyn yr hawl i gael yr addysg honno o fewn pellter rhesymol i'w gartref..
- (5) Rhaid i bob awdurdod addysg lleol yng Nghymru —
- (a) bennu, a hynny cyn pen tair blynedd ar ôl i'r Rhan hon ddod i rym, ar gyfer pob ysgol a choleg yn ei ardal, a yw'r ysgol neu goleg yn ysgol neu goleg categori A, yn ysgol neu goleg categori B, yn ysgol neu goleg categori C, neu'n ysgol neu goleg categori Ch;
- (b) gwneud y categorïau yr ysgolion hyn yn hysbys i bawb sy'n byw yn ardal yr awdurdod addysg lleol ac i Gyngor yr Iaith Gymraeg; ac
- (c) adolygu statws ieithyddol pob ysgol neu goleg bob pum mlynedd a gwneud y newidiadau hyn yn hysbys i bawb sy'n byw yn ardal yr awdurdod addysg lleol ac i Gyngor yr Iaith Gymraeg.
- (6) (a) Pan fo awdurdod addysg lleol yn cynnwys ardaloedd o Gymru lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng cyfathrebu rhaid iddo wneud trefniadau priodol i ddarparu'r addysg honno yn yr ardaloedd hynny drwy gyfrwng ysgolion neu golegau categori A.
- (b) Rhaid ymgynghori â'r atlas a gomisiynir gan Gyngor yr Iaith Gymraeg a grybwyllir yn is-adran (2)(d) o Ran 7 wrth benderfynu a yw'r Gymraeg yn brif gyfrwng cyfathrebu mewn ardal ai peidio.

- (7) At ddibenion y Rhan hon —
- (a) ystyr “ysgol neu goleg categori A” yw ysgol neu goleg lle y mae’n bosibl i bob disgybl astudio pob pwnc a addysgir yno drwy gyfrwng y Gymraeg;
 - (b) ystyr “ysgol neu goleg categori B” yw ysgol neu goleg lle mae’n bosibl i bob disgybl astudio o leiaf hanner y pynciau, gan gynnwys pob un o bynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, a addysgir yno drwy gyfrwng y Gymraeg;
 - (c) ystyr “ysgol neu goleg categori C” yw ysgol neu goleg lle mae’n bosibl i bob disgybl astudio hyd at hanner y pynciau gan gynnwys o leiaf ddau o’r pynciau craidd, heblaw’r Gymraeg, a addysgir yno drwy gyfrwng y Gymraeg; ac
 - (ch) ystyr “ysgol neu goleg categori Ch” yw ysgol neu goleg lle nad yw’n bosibl i unrhyw ddisgybl astudio unrhyw bwnc, heblaw’r Gymraeg, drwy gyfrwng y Gymraeg.
- (8) (a) Mae gan bob person ifanc dros 16 oed yng Nghymru sy’n dymuno parhau ei addysg mewn coleg trydyddol neu goleg addysg bellach yng Nghymru yr hawl i wneud hynny yn gyfan gwbl neu’n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl ei ddymuniad ef o fewn pellter rhesymol i’w gartref.
- (b) Yn unol ag is-adran (a) uchod rhaid i bob coleg trydyddol a choleg addysg bellach yng Nghymru wneud trefniadau priodol sy’n galluogi myfyrwyr coleg trydyddol a myfyrwyr coleg addysg bellach i arfer yr hawl a roddir yn is-adran (a) uchod.
- (9) Mae gan bob disgybl ag anghenion arbennig yr hawl i gael addysg arbennig sy’n addas iddo yn ieithyddol, a rhaid i awdurdodau addysg lleol yng Nghymru neu berchnogion ysgolion arbennig nas cynhelir gan awdurdod addysg leol sicrhau bod yr addysg arbennig a ddarperir yn ysgolion ei ardal yn rhoi sylw dyledus i gefndir ieithyddol pob disgybl sy’n derbyn addysg arbennig yn yr ysgolion hynny.
- (10) Rhaid i bob awdurdod addysg lleol yng Nghymru cyn pen tair blynedd ar ôl i’r Rhan hon ddod i rym gan roi sylw dyledus i’r hawliau a’r dyletswyddau a roddir gan Rannau 3 a 4 o’r Mesur hwn —
- (a) canfod beth yw’r angen am addysg gynradd, uwchradd a phellach drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei ardal;
 - (b) ar sail y canfyddiadau hynny llunio cynllun pumlynyddol i’w gymeradwyo gan Gyngor yr Iaith Gymraeg sy’n dangos sut y mae’n bwriadu diwallu’r angen am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei ardal;
 - (c) gwneud trefniadau priodol i ddarparu ar gyfer ar angen hwnnw o fewn fframwaith y pedwar categori yn adran (7) uchod; ac
 - (ch) adolygu’r cynllun a grybwyllir yn is-adran (b) uchod bob pum mlynedd.
- (11) (a) Mae gan bob person yng Nghymru sy’n dymuno dilyn cwrs o astudiaethau mewn sefydliad addysg uwch yng Nghymru yr hawl i wneud hynny yn gyfan gwbl neu’n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl ei ddymuniad ef.
- (b) Yn unol ag is-adran (a) uchod rhaid i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gan roi sylw dyledus i’r hawliau a’r dyletswyddau a roddir gan Rannau 3 a 4 o’r Mesur hwn gydweithredu i wneud trefniadau priodol sy’n galluogi myfyrwyr addysg uwch i arfer yr hawl a roddir yn is-adran (a) uchod.
- (12) Rhaid i bob sefydliad addysg yng Nghymru sy’n darparu addysg gydol oes gan roi sylw dyledus i’r hawliau a’r dyletswyddau a roddir gan Rannau 3 a 4 o’r Mesur hwn — ganfod beth yw’r angen am addysg gydol oes drwy gyfrwng y Gymraeg yn ei ardal a gwneud trefniadau priodol i ddarparu ar gyfer yr angen hwnnw.
- (13) (a) Mae gan bawb sy’n byw yng Nghymru yr hawl i ddysgu’r Gymraeg.
- (b) Yn unol ag is-adran (a) uchod rhaid i Weinidogion Cymru, gan roi sylw dyledus i’r hawliau a’r dyletswyddau a roddir gan Rannau 3 a 4 o’r Mesur hwn ganfod beth yw’r angen am ddarpariaeth i ddysgu Cymraeg y tu hwnt i oed addysg orfodol fel ail iaith ar bob lefel ac am gyrsiau gwella sgiliau Cymraeg a gwneud trefniadau priodol, gan gynnwys cynllun pumlynyddol sydd i’w gymeradwyo gan Gyngor yr Iaith Gymraeg, i ddarparu ar gyfer yr angen hwnnw mewn modd sy’n addas i amgylchiadau daearyddol, economaidd a chyflogol y sawl sy’n dymuno dysgu.
- (14) At ddibenion y Rhan hon ystyr “trefniadau priodol” yw trefniadau sy’n rhoi ystyriaeth i’r canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt —
- (a) nifer y personau a gyfflogir gan y sefydliad addysgol;
 - (b) lleoliad y sefydliad addysgol;
 - (c) natur ieithyddol yr ardal y mae’r sefydliad addysgol yn ei gwasanaethu fel y’i disgrifir yn yr atlas a gomisiynir gan Gyngor yr Iaith Gymraeg a grybwyllir yn is-adran (2)(d) o Ran 7 yn ôl y digwydd;
 - (ch) natur disgyblion a myfyrwyr y sefydliad addysgol; a
 - (d) natur yr addysg a ddarperir.
- (15) Caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu drwy orchymyn faterion sydd i’w hystyried wrth benderfynu a yw trefniant yn briodol ai peidio o dan y Rhan hon.

Gorfodi, proses, a rhwymedi

- (16) Caiff person sydd o’r farn bod person arall wedi nacáu iddo hawl o dan y Rhan hon godi achos sifil ynglŷn â’r mater yn yr un ffordd ag unrhyw hawliad arall yng nghyfraith camwedd er mwyn cael iawn.
- (17) Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth datgenir drwy hyn y caiff iawn am nacau hawl o dan y Rhan hon gynnwys iawndal am niwed i deimladau p’un a yw yn cynnwys iawndal o dan unrhyw bennawd arall ai peidio.

- (18) Codir achos yng Nghymru a Lloegr mewn llys sirol yn unig.
- (19) Y rhwymediâu sydd ar gael yn yr achosion hyn yw'r rhwymediâu sydd ar gael yn yr Uchel Lys.

6. Comisiynydd Iaith Cymru

- (1) (a) Bydded Comisiynydd Iaith Cymru ("y Comisiynydd")
- (b) Mae'r Comisiynydd i'w benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (c) Mae'r Comisiynydd i'w benodi am dymor nad yw'n hwy na phum mlynedd.
- (ch) Rhaid i'r Comisiynydd gael adnoddau digonol oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau.
- (d) Yn ddarostyngedig i is-adran (ch) uchod caiff y Comisiynydd benodi'r aelodau o staff sydd yn ei farn ef yn angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau.
- (dd) Rhaid i'r Comisiynydd gyflawni'i ddyletswyddau yn annibynnol.

Dyletswyddau cyffredinol

- (2) Mae dyletswyddau cyffredinol y Comisiynydd yn cynnwys y canlynol —
- (a) monitro sut y mae darparwyr gwasanaethau yn cydymffurfio â darpariaethau'r Mesur hwn;
- (b) cymryd pob cam angenrheidiol o fewn ei awdurdod i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn cydymffurfio â darpariaethau'r Mesur hwn;
- (ch) rhoi cyngor neu gymorth arall i'r cyhoedd o ran eu hawliau o dan y Mesur hwn;
- (d) rhoi cyngor neu gymorth arall i ddarparwyr gwasanaethau, cyflogwyr, awdurdodau addysg, sefydliadau addysg uwch, Gweinidogion Cymru a phersonau perthnasol eraill o ran eu dyletswyddau o dan y Mesur hwn;
- (dd) adrodd ar unrhyw fater sydd o fewn swyddogaethau'r Comisiynydd gan gynnwys rhoi barn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru ar ddeddfwriaeth a all effeithio ar ddyfodol y Gymraeg yn gyffredinol a hawliau siaradwyr a chymunedau Cymraeg yn benodol;
- (e) llunio adroddiad blynyddol ar ei waith i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dyletswyddau ymchwilio

- (3) Caiff y Comisiynydd —
- (a) ymchwilio, ar ei ran ef ei hun neu ar ran person arall, yn sgil cŵyn a wnaed iddo gan unrhyw berson bod darparwr gwasanaethau wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau'r Mesur hwn;
- (b) ymchwilio, ar ei ran ef ei hun neu ar ran person arall, yn sgil cŵyn a wnaed iddo gan unrhyw berson bod

darparwr gwasanaethau wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau deddfiad arall sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

- (4) Caiff y Comisiynydd wrthod ymchwilio i gŵyn neu beidio ag ymchwilio i gŵyn os nad oes yn ei farn ef sail ddigonol i ymchwilio i'r gŵyn neu i barhau i ymchwilio i'r gŵyn.
- (5) Os bydd y Comisiynydd yn gwrthod ymchwilio i gŵyn neu'n peidio ag ymchwilio i gŵyn, rhaid iddo hysbysu'r achwynydd am y penderfyniad hwn a rhoi'r rhesymau amdano.
- (6) Cyn ymchwilio i gŵyn o dan y Mesur hwn rhaid i'r Comisiynydd hysbysu person addas yn y corff yr ymchwilir iddo am ei fwriad i ymchwilio.
- (7) Cynhelir ymchwiliadau o dan y Mesur hwn yn breifat.
- (8) Nid oes gan neb hawl i fynnu gwrandawriad mewn perthynas ag ymchwiliad o dan y Mesur hwn, ond rhaid i'r Comisiynydd roi cyfle teg i'r corff yr ymchwilir iddo ateb pob cyhuddiad neu feirniadaeth.
- (9) Caiff y Comisiynydd fynnu cael gwybodaeth gan y corff dan sylw wrth ymchwilio i gŵyn o dan y Mesur hwn.
- (10) Wrth gynnal ymchwiliad, caiff y Comisiynydd wysio tystion i ymddangos ger ei fron a'u gorfodi i roi tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig ar lw ac i gyflwyno pob dogfen a phob peth sydd ym marn y Comisiynydd yn angenrheidiol i gynnal yr ymchwiliad.
- (11) Wedi iddo gwblhau ymchwiliad o dan y Mesur hwn, rhaid i'r Comisiynydd lunio adroddiad i'w gyflwyno i'r person yr ymchwilir iddo ac i'w osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (12) Yn ei adroddiad, caiff y Comisiynydd —
- (a) gwneud unrhyw argymhellion sydd yn ei dyb ef yn addas; a
- (b) mynnu bod y person priodol yn y corff yr ymchwilir iddo yn hysbysu'r Comisiynydd cyn pen cyfnod penodol bod y corff dan sylw yn bwriadu rhoi'r argymhellion ar waith ac erbyn pryd.
- (13) Wedi iddo gwblhau ymchwiliad o dan y Mesur hwn, rhaid i'r Comisiynydd o fewn amser priodol roi copi o'i adroddiad i'r achwynydd.
- (14) Os bydd y Comisiynydd yn cael cadarnhad gan y corff dan sylw ei fod yn bwriadu rhoi'r argymhellion ar waith ac yn nodi erbyn pryd y bwriedir gwneud hynny, rhaid i'r Comisiynydd hysbysu'r achwynydd o fewn amser priodol am hyn.
- (15) Os yw person yn gwrthod cydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan y Rhan hon neu os yw person yn rhwystru'r Comisiynydd wrth iddo gyflawni'i swyddogaethau o dan y Rhan hon, bydd yn euog o drosedd a bydd yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na £5,000 o bunnau neu gyfnod o garchar nad yw'n hwy na chwe mis, neu'r ddau.

- (16) Os corff corfforaethol sy'n cyflawni trosedd o dan adran (15) uchod ac os profir bod y drosedd wedi'i chyflawni drwy gydsynio neu gydymddwyn ar ran unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg, neu unrhyw berson sy'n ymhoni gweithredu yn y swyddi hynny, neu os oes unrhyw un o'r swyddogion hyn neu'r personau hyn wedi hwyluso cyflawniad y drosedd drwy esgeulustod, bydd y swyddog hwnnw neu'r person hwnnw yn euog o drosedd a bydd yn agored i erlyniad a chosb fel petai'n euog o'r drosedd a grybwyllwyd gyntaf.
- (17) Caiff y Comisiynydd ddwyn achos am drosedd o dan y Rhan hon.
- (18) Caiff person sydd o'r farn bod person arall wedi nacáu iddo hawl o roddir yn y Mesur hwn wneud cais i'r Comisiynydd am gymorth o ran achos mewn llys neu driwlynlys y mae'n bwriadu ei ddwyn ynghylch y mater.
- (19) Caiff y Comisiynydd roi cymorth i berson sy'n gwneud cais yn adran (18) uchod ar sail unrhyw un o'r canlynol:
- (a) mae'r achos yn codi mater o egwyddor;
 - (b) mae'n afresymol i ddisgwyl i'r ceisydd ymdrin â'r achos heb gymorth (oherwydd cymhlethdod yr achos, oherwydd perthynas y ceisydd â pharti arall, neu am reswm arall);
 - (c) mae ystyriaeth arbennig sy'n ei gwneud yn briodol bod y Comisiynydd yn rhoi cymortj.
- (20) Os yw'r Comisiynydd yn cytuno i roi cymorth i geisydd, caiff:
- (a) darparu neu drefnu cyngor cyfreithiol;
 - (b) trefnu cynrychiolaeth gyfreithiol;
 - (c) yn unol ag adran (23) isod, ceisio dod â'r anghydfod i ben;
 - (ch) darparu neu drefnu unrhyw gymorth arall sydd yn ei farn yn briodol.

Rhwymedi llys

- (21) Caiff unrhyw berson sy'n barnu ei fod wedi cael cam gan y Comisiynydd wrth iddo gynnal ymchwiliad o dan y Mesur hwn wneud cais i'r Uchel Lys am rwymedi.
- (22) Rhaid gwneud cais i'r Llys am rwymedi cyn pen chwe ugain niwrnod ar ôl —
- (a) cael canlyniad yr ymchwiliad;
 - (b) cael hysbysiad gan y Comisiynydd o fwriad y corff i weithredu'r argymhellion;
 - (c) cael hysbysiad gan y Comisiynydd ei fod yn gwrthod ymchwilio i'r gŵyn neu'n gwrthod parhau i ymchwilio i'r gŵyn.
- (23) Caiff y Comisiynydd wneud trefniadau ag unrhyw berson arall i ddarparu gwasanaethau cymrodeddu gan y person hwnnw mewn perthynas ag anghydfodau ynghylch hawliau iaith yn y Mesur hwn.

7. Cyngor yr Iaith Gymraeg

- (1) (a) Bydded Cyngor yr Iaith Gymraeg ("y Cyngor").
 (b) Rhaid i'r Cyngor gael adnoddau digonol i'w alluogi i'w gyflawni ei swyddogaethau.
- (2) Swyddogaethau'r Cyngor yw —
- (a) hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a'r wybodaeth o'r Gymraeg fel priod iaith Cymru ac iaith swyddogol;
 - (b) hybu gwybodaeth am y Gymraeg;
 - (c) cynghori Gweinidogion Cymru, neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ar eu cais hwy neu'n wirfoddol, ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg;
 - (ch) ceisio a derbyn sylwadau gan unigolion a grwpiau buddiant am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg;
 - (d) comisiynu atlas sosioieithyddol o Gymru a fydd ymhlith pethau eraill yn dangos yn ôl oedran, rhyw, dosbarth economïadd, lle geni, ethnigrwydd ac unrhyw agwedd arall sydd yn berthnasol ym marn y Cyngor fedrau yn y Gymraeg, defnydd o'r Gymraeg ac agweddau tuag at y Gymraeg ac unrhyw agwedd arall sydd yn berthnasol ym marn y Cyngor ac yn benodol yn nodi ym mha ardaloedd o Gymru y mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng cyfathrebu —
 - (i) rhaid comisiynu'r atlas hon cyn pen tair blynedd ar ôl i'r Rhan hon ddod i rym;
 - (ii) rhaid adolygu'r atlas hon bob pum mlynedd.
 - (dd) comisiynu ymchwil berthnasol arall ar y Gymraeg.
- (3) (a) Rhaid i'r Cyngor lunio codau ymarfer ar y safonau gofynnol sylfaenol ar gyfer gwasanaeth ym mhob un o'r meysydd gwasanaeth a grybwyllir yn adran (5) o Ran 3.
- (b) Wrth bennu'r safonau gofynnol sylfaenol hyn, rhaid i'r Cyngor dalu sylw priodol i gynnwys cynlluniau iaith Gymraeg a wnaed o dan adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sicrhau nad yw'r safonau gofynnol sylfaenol yn lleihau'r ymrwymadau a waned yn y cynlluniau hyn o ran nifer, ystod, na safon.
- (c) Cyn dyroddi cod ymarfer o dan y Rhan hon rhaid i'r Cyngor —
- (i) cyhoeddi drafft o'r cod, a
 - (ii) ymgynghori â'r personau hynny y mae'n briodol ym marn y Cyngor ymgynghori â hwy.
- (ch) Cyn dyroddi cod o dan yr adran hon rhaid i'r Cyngor gyflwyno drafft ohono i Weinidogion Cymru.
- (d) Os bydd Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r drafft, byddant —
- (i) yn hysbysu'r Cyngor am hynny, a
 - (ii) gosod copi ohono gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
- (dd) Os nad yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r drafft rhaid iddynt ysgrifennu at y Cyngor gan nodi'u rhesymau.

- (e) Os bydd drafft o'r cod yn cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3)(d) uchod os na fydd y Cynulliad yn penderfynu anghymeradwyo'r cod cyn pen 40 niwrnod,
 - (i) caiff y Cyngor ddyroddi'r cod ar ffurf drafft; a
 - (ii) daw i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.
- (f) Ni fydd methu a chydymffurfio â darpariaeth mewn cod ynddo'i hun yn gwneud person yn agored i achos troseddol na sifil, ond bydd cod —
 - (i) yn dystioleth dderbyniol mewn achos troseddol a sifil, a
 - (ii) rhaid i god gael ei ystyried gan lys neu driwbwlynys ym mhob achos pan fydd yn ymddangos i'r llys neu i'r triwbwlynys ei fod yn berthnasol.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru roi drwy orchymyn swyddogaethau ychwanegol i'r Cyngor.
- (5) Pan fydd y Cyngor yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru, cyn gwneud hynny bydd yn —
 - (a) ymgynghori ag unrhyw gyrff statudol perthnasol;
 - (b) ymgynghori ag unrhyw unigolion neu grwpiau perthnasol; a
 - (c) talu sylw dyledus i'r sylwadau sy'n cael eu cyflwyno iddo yn sgil unrhyw ymgynghori mewn perthynas ag (a) a (b) uchod.
- (6) Bydd y Cyngor yn gorff corfforaethol.
- (7) Bydd ganddo o leiaf 10 aelod a nid mwy nag 20.
- (8) Bydd y Cyngor yn cael ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- (9) Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sicrhau wrth benodi aelodau i'r Cyngor fod pob un o'r profiadau isod yn cael eu cynrychioli ar y Cyngor —
 - (a) profiad o anghenion grwpiau neilltuol o siaradwyr Cymraeg, dysgwyr ac/neu wybodaeth broffesiynol ohonynt;
 - (b) profiad o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac/neu wybodaeth broffesiynol ohono;
 - (c) profiad o Gymraeg yn y gweithle ac/neu wybodaeth broffesiynol ohoni; ac
 - (ch) profiad o addysg Gymraeg ac/neu wybodaeth broffesiynol ohoni.
- (10) Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sicrhau wrth benodi aelodau i'r Cyngor fod o leiaf hanner ohonynt yn medru'r Gymraeg yn rhugl.
- (11) Bydd pob aelod yn gwasanaethu am bum mlynedd.
- (12) Bydd y Cyngor yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar ei waith i'r Cynulliad Cenedlaethol.
- (13) Cynhelir cyafarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus.

8. Enwi, cychwyn a chymhwysio

- (1) Enw'r Mesur hwn yw Mesur yr Iaith Gymraeg 2007.
- (2) Daw Rhannau 1 a 2 a'r Rhan hon i rym wrth basio'r Mesur.
- (3) Daw darpariaethau eraill y Mesur i rym ar y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn eu pennu drwy orchymyn a chaniateir pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.